

## Cefndir

Ym mis Awst 2010, cyhoeddodd Llywodraeth y Cynulliad “Canllaw ac Arfer Da Fframwaith Comisiynu Bywydau Bodlon Cymunedau Cefnogol”. Cefnogir y Fframwaith gan Ofal Cymdeithas Gwerth Cymru a Chymorth yn Berthynol i Dai – Canllaw Cynllunio Caffael

Bellach mae Gweithrediaeth Comisiynu Bywydau Bodlon Cymunedau Cefnogol a Fforwm Darparwyr wedi’u sefydlu i oruchwylio Rhaglen Datblygu Comisiynu sydd â’r nod o gynorthwyo cyrff i weithredu’r Fframwaith Comisiynu. Mae’r Rhaglen Ddatblygu’n cynnwys rhaglen dreigl o ddigwyddiadau i gefnogi nodau allweddol y Weithrediaeth Gomisiynu, sef:

1. Creu newid mewn ymarfer comisiynu a chaffael ar gyfer gofal cymdeithasol a gwasanaethau wedi’u comisiynu ar y cyd, i ganolbwyntio mwy ar ganlyniadau, ac i fod yn fwy creadigol, effeithlon ac effeithiol
2. Datblygu cymuned gryfach Cymru gyfan o gomisiynwyr hyderus a medrus.
3. Hwyluso rhagor o gysylltiadau aeddfed rhwng Cyrff Comisiynu a Darparwyr.
4. Hwyluso dealltwriaeth llawer gwell o’r problemau galw a chyflenwi sydd yn wynebu gofal cymdeithasol ar draws Cymru.
5. Cyflwyno ymarfer dylunio a datblygu gwasanaeth o ansawdd gan awdurdodau lleol yn cynnwys gwasanaethau sydd yn canolbwyntio ar y gymuned a chyd gynhyrchu.
6. Hwyluso comisiynu rhanbarthol ac ymarfer caffael mwy effeithlon ac effeithiol .



## Gweithdy Comisiynu

Mae Anabledd Dysgu Cymru, mewn partneriaeth gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru, yn eich gwahodd i weithdy undydd i archwilio materion comisiynu a chaffael i ddarparwyr gwasanaethau anabledd dysgu.

Bydd y gweithdy yn:

- Rhoi cyfle i ystyried y negeseuon allweddol i gomisiynwyr a darparwyr yn y Canllaw newydd
- Arddangos y Canllaw Cynllunio Caffael ar gyfer Gofal Cymdeithasol a Gwasanaethau Cymorth perthynol i Dai ac ystyried y dull o weithredu y mae'n ei nodi ar gyfer comisiynu a chaffael gwasanaethau gofal cymdeithasol a gwasanaethau cymorth yn berthynol i dai
- Arddangos Daffodil, y System Amcanestyniad Anghenion Gofal ar gyfer Cymru a fydd ar gael cyn hir i ddarparwyr
- Nodi cyfleoedd i ddarparwyr ymgysylltu gyda'r Rhaglen Datblygu Comisiynu
- Edrych ar y Canllaw Comisiynu Anabledd Dysgu

## Manylion Archebu

De Cymru            15 Mawrth 2011, 9:45 – 3:00    Caerdydd

Gogledd Cymru    22 Mawrth 2011, 9:45 – 3:00    Llandudno

Darperir cinio a lluniaeth.

Mae hwn yn ddigwyddiad rhad ac am ddim. Ond os ydych yn archebu lle ac yn rhoi llai na tri diwrnod o rybudd i ni na fyddwch yn dod, byddwn yn codi tâl o £10 arnoch i dalu am fwyd a lluniaeth sydd wedi'u harchebu ar eich cyfer.

I archebu eich lle ar y digwyddiadau hyn, llanwch y ffurflen archebu a'i hanfon at Rebecca Watkins yn Anabledd Dysgu Cymru.

Rebecca Watkins  
Anabledd Dysgu Cymru  
41 Cilgant Lambourne  
Parc Busnes Caerdydd  
Llanisien  
Caerdydd  
CF14 5GG

029 20681161

[rebecca.watkins@learningdisabilitywales.org.uk](mailto:rebecca.watkins@learningdisabilitywales.org.uk)

[www.learningdisabilitywales.org.uk](http://www.learningdisabilitywales.org.uk)